# PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **28 Medi 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.Phillips** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, J.Henton, C.Lewis, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, P.Rogers, D.Whitelock a/ac R.W.Wood |
| **Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:** | A. Amor a/ac M.Caddick |
| **Swyddogion sy'n Bresennol** | C.Millis, R.Crowhurst, J.Burge, C.Davies, S.McCluskie, J.Merrifield, C.Morris, M. Thomas, K.Windsor-Brown, D.Evans a/ac P.Chivers |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr J.Hurley, N.Jenkins a/ac C.Phillips |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Cadarnhawyd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar Eitemau 7, 12, 13 a 14 o Agenda Bwrdd y Cabinet

**Eitem 12 (Agenda'r Cabinet)**
Y Cyng. Rebeca Phillips - Personol - Llywodraethwr yn Ysgol YGG Trebannws a Phontardawe - goddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. Sonia Reynolds - Personol - Llywodraethwr yn Ysgol YGG Gwaun Cae Gurwen - goddefeb i siarad a phleidleisio.

Marie Caddick – Personol - Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph (Castell-nedd) ac aelod o'r teulu yn mynychu Ysgol Gyfun St Joseph - goddefeb i siarad a phleidleisio.

Adam Amor – Llywodraethwr Ysgol ac aelod o'r teulu yn mynychu Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur ac YGG Rhosafan - goddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. James Henton - Llywodraethwr yn Ysgol Tregeles - goddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. Phil Rogers - Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Catwg ac Ysgol Gymunedol Llangatwg - goddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. Robert Wood - Llywodraethwr yn Ysgol Bae Baglan - goddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. Peter Rees - Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Crynallt ac Ysgol Gyfun Cefn Saeson - goddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. Dave Whitelock - Llywodraethwr yn Ysgol Cwm Brombil - goddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. Wayne Carpenter – Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Melin ac Ysgol Gynradd Gnoll. Mae aelod o'r teulu yn gweithio yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson - goddefeb i siarad a phleidleisio.

**Eitem 14 (Agenda'r Cabinet)**
Y Cyng. Sonia Reynolds – Ymddiriedolwr Canolfan Maerdy - goddefeb i siarad a phleidleisio

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 25 Mai 2023 a 6 Gorffennaf 2023 fel cofnod gwir a chywir.

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022 - 2023

Cytunodd yr Aelodau fod y Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Lles yn nodi ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2022/2023 sy'n atodedig yn Atodiad 1 ac yn ei gymeradwyo i'r cyngor.

5. **Y DIWEDDARAF AM GYFLWYNO PRYDAU YSGOL AM DDIM CYFFREDINOL I YSGOLION CYNRADD**

Diolchodd Pennaeth y Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid ac aelodau'r Pwyllgor Craffu i'r staff arlwyo a oedd yn rhan o'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen yn llwyddiannus.

Holodd yr aelodau a gafwyd unrhyw adborth gan rieni/gwarcheidwaid ar y cyflwyniad. Cadarnhaodd swyddogion na dderbyniwyd unrhyw adborth negyddol, a oedd yn beth cadarnhaol.

Nodwyd yr eitem hon.

6. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Cyn craffu cyn penderfynu, cododd aelod bryder ynghylch ehangder yr eitemau a fydd yn cael eu hystyried gan y pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Lles.

Nodwyd y datganiad

**Lleoedd Cynlluniedig Ychwanegol yn Ysgol Gynradd Blaenhonddan – yn ôl o'r Ymgynghoriad**

Cadarnhaodd swyddogion mai'r adroddiad hwn oedd yr ail adroddiad o dri sy'n y cynnig ad-drefnu ysgolion a chafwyd ymatebion cyfyngedig i'r ymgynghoriad. Bydd adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r aelodau cyn gwneud y penderfyniad terfynol ar ddiwedd y flwyddyn.

Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd na fyddai Canolfan Cefnogi Dysgu Maesmarchog yn cau pe bai niferoedd presenoldeb disgyblion yn gostwng. Dywedodd swyddogion wrth aelodau nad oedd modd rhoi sicrwydd tymor hir ond cadarnhawyd bod niferoedd Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA) yn cynyddu, nid gostwng. Nid oes unrhyw gynlluniau na thrafodaethau ynghylch cau ar hyn o bryd ond ni ellir rhagweld sefyllfa'r dyfodol.

Gofynnodd yr aelodau am amcangyfrif o gostau trafnidiaeth. Dywedodd swyddogion na fyddai hyn yn bosib; mae costau trafnidiaeth wedi codi ac mae'r sefyllfa'n newidiol. Ni wyddys pa ardaloedd y bydd y plant yn teithio allan ohonynt a gallai hyn effeithio'n fawr ar y costau. Cadarnhaodd swyddogion fod tacsis ar

gyfartaledd yn costio hyd at £350 y dydd ond y gobaith oedd y byddai cyflwyno'r gyllideb Teithio Personol yn helpu i ostwng y gost hon.

Holodd yr aelodau a oedd cynlluniau i symud staff cymwys o ysgolion eraill i sefydlu'r ddarpariaeth newydd, gan ystyried yr anawsterau wrth recriwtio staff cymorth cymwysedig gyda chymwysterau ASA. Roedd swyddogion yn cydnabod bod gweithio mewn uned yn rôl fwy arbenigol o'i gymharu â dosbarthiadau prif ffrwd. Fel rhan o'r broses recriwtio, gofynnir i ymgeiswyr am brofiad/cymwysterau ychwanegol yn y maes. Sicrhaodd swyddogion yr aelodau bod pecyn hyfforddi'n cael ei roi ar waith ar ôl agor uned newydd a bod gweithgareddau pontio wedi'u cynllunio ar gyfer y plant. Cefnogir staff i sicrhau bod unrhyw anawsterau cynnar, diffyg sgiliau neu fylchau yn eu gwybodaeth yn cael eu llenwi.

Holodd yr aelodau a fydd staff nad ydynt yn yr ystafell ddosbarth, fel gyrwyr tacsi, hebryngwyr a staff arlwyo'n derbyn hyfforddiant ASA. Cadarnhaodd swyddogion fod dau hyfforddwr teithio ar gael, sy'n gweithio gyda phlant drwy gyfnod pontio a hefyd staff arbenigol o fewn y gwasanaeth cynhwysiant. Nid yw'r awdurdod yn cyflogi gyrwyr tacsi a hebryngwyr felly ni all hyfforddiant fod yn orfodol.

Holodd yr aelodau a allai staff cymorth gael yr opsiwn i gynnal hyfforddiant mewnol ar sail wirfoddol. Nododd swyddogion yr awgrym hwn.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau’n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## <u>**Diweddariad Gwaharddiadau Ysgolion**</u>

Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Addysg fod yr adroddiad mewn perthynas â chais gan aelodau am ragor o wybodaeth am bob math o waharddiad.

Cyfeiriodd yr aelodau'r swyddogion at baragraff 13, tudalen 251 a cheisiodd egluro'r crybwylliad am ostyngiad dros dro mewn gwaharddiadau tymor penodol ar gyfer disgyblion Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Cadarnhaodd swyddogion fod y gostyngiad dros dro'n fater o gasglu data sy'n ymwneud â'r newid o'r system AAA flaenorol i'r system ADY newydd. Mae COVID wedi effeithio ar nifer yr atgyfeiriadau gan ysgolion wrth i bresenoldeb plant ostwng. Oherwydd y broses hir

mewn rhai amgylchiadau, tynnwyd sylw at y gostyngiad dros dro hwn i sicrhau bod y ffigurau'n glir yn y tymor hir.

Dywedodd yr aelodau, yn ystod yr argyfwng costau byw presennol, y gall gwaharddiadau fod yn gosb i rieni yn ogystal â'r plant oherwydd bod rhieni'n gorfod cymryd absenoldeb. Croesawodd yr aelodau gyfiawnder adferol a diolchodd i swyddogion am edrych ar ddewisiadau amgen i'r hyn sy'n broblem genedlaethol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu gwaith.

Yn dilyn craffu, nododd yr aelodau'r eitem er gwybodaeth.

## Asesiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2021/2022

Gofynnodd yr aelodau am weld yr astudiaethau achos a anfonwyd at Lywodraeth Cymru.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am adroddiad da gan nodi bod gwasanaethau llyfrgelloedd yn hanfodol i'n system addysg a'n cymunedau ac y dylid eu cefnogi wrth symud ymlaen.

Yn dilyn craffu, nododd yr aelodau'r eitem er gwybodaeth.

## Dangosyddion Perfformiad Chwarter 1 23/24 – Cyfarwyddiaeth Addysg

Dywedodd swyddogion wrth aelodau bod rhai graffiau yn yr adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn fformat newydd; bydd rhai o'r graffiau yn rhoi darlun cliriach ar ddiwedd y 4ydd chwarter.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 292 yr adroddiad a'r trefniant 12 mis di-rent ar gyfer darpariaethau Gofal Plant cyfrwng Cymraeg. Nododd yr aelodau fod nifer y lleoedd mewn cyfleusterau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog wedi cynyddu tra bod y nifer mewn darpariaethau cyfrwng Saesneg wedi gostwng a gofynnwyd a fydd y system ddi-rent yn cael ei chyflwyno i ddarpariaethau cyfrwng Saesneg.

Cadarnhaodd swyddogion fod y trefniant hwn yn destun adolygiad a gallai cyflwyno darpariaethau Saesneg yn y dyfodol fod yn opsiwn i'w ystyried. Dywedodd swyddogion wrth aelodau bod ymyrraeth gynnar i gynyddu presenoldeb mewn darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn rhan o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) a'i fod

wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Nododd swyddogion fod darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn aml mewn ardaloedd ynysig lle mae'r niferoedd yn isel ac mae'n anodd i fusnesau wneud y cyfleusterau'n hyfyw. Byddai unrhyw ostyngiad yn nifer y darpariaethau gofal plant yng Nghymru yn cael effaith negyddol ar y CSGA.

Mynegodd yr aelodau bryder bod llawer o ddarparwyr gofal plant yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd ac mae angen ystyried mantais mewn rhai meysydd a chystadleuaeth deg.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 292 yr adroddiad a gofynnodd am eglurhad ar y math o ryngweithio ieuenctid sydd wedi cynyddu. Cadarnhaodd swyddogion fod rhyngweithio wedi cynyddu ym mhob ardal a bod modd darparu dadansoddiad pellach os oes angen. Ers i COVID leihau, mae pobl ifanc yn fwy parod i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Lle mae ymwybyddiaeth nad yw person ifanc o bosib yn symud ymlaen i gyflogaeth neu hyfforddiant, gwneir gwaith dal i fyny. Mae gweithiwr digartrefedd ymroddedig o fewn y gwasanaeth ieuenctid.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o'r meini prawf ar gyfer cael cymorth drwy'r rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy. Cadarnhaodd swyddogion y bydd y maes hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r gwaith ar gyflogadwyedd sydd wedi'i gynnwys yn y Blaenraglen Waith.

Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod mwy o bobl ifanc yn mynychu canolfannau ieuenctid, ond codon nhw bryderon am bobl ifanc yn ymgynnull yng nghanol trefi, mewn parciau ac mewn mannau cyhoeddus a'u bod mewn gangiau, ac yn rhan o linellau cyffuriau ac yn gaeth i gyffuriau. Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth ynghylch gweithwyr ieuenctid allgymorth a pha gymorth y gallent ei roi. Er bod gweithwyr ieuenctid yn gwneud gwaith yn y maes hwn, cadarnhaodd swyddogion eu bod yn cael eu canmol gan y tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB) a gweithwyr Cynnydd. Byddai angen gwneud rhagor o waith cyn y gellid rhoi trosolwg cyflawn. Gofynnodd y Cadeirydd i'r wybodaeth hon gael ei dychwelyd i gyfarfod pwyllgor yn y dyfodol.

Yn dilyn craffu, nodwyd yr eitem.

7. **COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR**

Nodwyd yr eitem hon.

8. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Nodwyd yr eitem hon.

9. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**Cynghorydd R.Phillips**

**Cadeirydd**